

Cyfngiadau Lefel Rhybudd 4 wedi'u Diweddarau ar 18 Chwefror 2021 ASESIAD EFFAITH CRYNO

Cyflwyniad

1. Cynhyrchwyd Asesiad Effaith Cryno ym mis Rhagfyr 2020 yn dilyn cyflwyno system o Lefelau Rhybudd yng Nghymru, sydd i'w gweld [yma](#). Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn canolbwyntio ar yr effeithiau a nodwyd ar gyfer y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4, yn deillio o'r adolygiad 21 diwrnod yn mis Chwefror
2. Mae'r canllawiau ar y Lefelau Rhybudd ac atodiad mis Chwefror i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).
3. Nod y ddogfen hon yw cynnal asesiad o effaith y mesurau a osodir gan y cyfyngiadau diwygiedig ar Lefel Rhybudd 4 ar wahanol fathau o ddemograffeg yng nghymdeithas Cymru.
4. Arweiniodd ymddangosiad 'amrywiolyn Caint' o'r feirws ym mis Rhagfyr – sydd bellach yn fwy amlwg ac yn fwy heintus - at yr angen am gyfyngiadau tynnach ar Lefel Rhybudd 4 (e.e. atal dysgu wyneb yn wyneb i'r mwyafrif helaeth o ddysgwyr mewn addysg). Ers hynny, mae'r sefyllfa iechyd yng Nghymru wedi gwella gan alluogi gwneud cymryd rhai camau llacio cymedrol yn yr adolygiad o'r cyfyngiadau ym mis Chwefror, o'r Lefel 4 fwy caeth. Mynegodd Gweinidogion Cymru bod angen llacio'r cyfyngiadau o Lefel 4 i 3 yn ofalus ac yn raddol er mwyn cadw'r heintiadau ar lefel y gellid eu rheoli a pharhau ar y llwybr tuag at ailagor y wlad drwy'r lefelau rhybudd.
5. Dyma'r prif gamau llacio a wnaed yn yr adolygiad 21 diwrnod ar 18 Chwefror 2021:
 - i) Plant y cyfnod sylfaen a rhai dysgwyr galwedigaethol yn dychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb o 22 Chwefror
 - ii) pedwar o bobl o ddwy aelwyd i gael cyfarfod yn yr awyr agored, gan gadw pellter cymdeithasol, mewn mannau cyhoeddus (nid mewn gerddi preifat)
 - iii) Adolygu'r canllawiau i'w gwneud yn glir y gall pobl anabl gael gofal a chymorth os oes angen, o fewn y rheolau.

Y cefndir deddfwriaethol

6. Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, ac fe'u disodlwyd wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf [yma](#).
7. Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r adolygiad o'r cyfyngiadau ar 18 Chwefror.

Adolygu rheoliadau'r cyfyngiadau

8. Caiff y Rheoliadau eu hadolygu bob tair wythnos yn unol â'r dystiolaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Asesiad o effaith y mesurau ar gydraddoldeb

9. Mae dystiolaeth yn dangos bod y coronafeirws ei hun yn cael effeithiau anghymesur ar gydraddoldeb. Mae pobl hŷn, dynion; pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig a'r boblogaeth Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddioddef effaith ddifrifol ar eu hiechyd a marw o'i herwydd. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod y bydd rheoli'r feirws a lleihau ei dosglwyddiad yn golygu effeithiau cydraddoldeb cadarnhaol i'r grwpiau hyn. Mae'r Gweinidogion yr un mor ymwybodol y bydd mesurau i reoli lledaeniad y feirws yn anochel yn cael effaith anghymesur ar gydraddoldeb, pobl hŷn a phlant, er enghraifft. Felly, dylai lleihau'r effaith ar grwpiau fel y rhain fod yn rhan annatod o'r dull a fabwysiedir ar gyfer rheoli'r pandemig yn barhaus.

10. Bydd y llacio sy'n caniatáu i bedwar o bobl o ddwy aelwyd gyfarfod yn yr awyr agored, gan gadw pellter cymdeithasol, mewn man cyhoeddus (nid mewn gardd breifat) yn cynnig rhywfaint o fudd cymedrol i'r rhan fwyaf o bobl, gan nodi y gallai fod mwy o fudd i rai grwpiau sydd wedi teimlo bod cyfyngiadau'n effeithio mwy arnynt.

Bydd diweddarau ein canllawiau i alluogi pobl anabl i gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o fudd i'r garfan hon ac yn lleihau effaith y feirws ar eu bywydau.

11. Fe'n gorfodir i oddef rhai effeithiau andwyol ar sail y risg i iechyd y cyhoedd a'r angen i reoli trosglwyddiad y feirws ond mae cael ymyriadau anfferyllol (NPIs) ar waith dros amser – a gan eu bod yn cael eu gwneud yn fwy cyfyngol o bryd i'w gilydd ac yna'n cael eu llacio – yn golygu bod yr effeithiau andwyol yn cael eu dwysáu dros amser.

12. Mae modd lliniaru'r effeithiau niweidiol mwyaf drwy ddewis y mesurau (o fewn y lefelau Rhybudd) a thrwy gynnig pecynnau cymorth ariannol, er enghraifft, ond ni fydd modd mynd i'r afael â'r holl effeithiau anghymesur a niweidiol. Mae rhai o'r effeithiau hynny'n rhai tymor byr ond bydd llawer yn cael effeithiau tymor hirach ac yn gwaethygu anfanteision sy'n bodoli eisoes

13. Gweithio gartref (lle bo'n bosibl) yw'r neges o hyd yn y newid fis Chwefror i Lefel Rhybudd 4. Mae gweithio gartref yn fwy tebygol o fod yn opsiwn i'r rhai sy'n gweithio mewn swyddfa ac mewn swyddi â chyflogau uwch. Ni fydd ar gael i bawb ac ni fyddai'n opsiwn i lawer o alwedigaethau â chyflog is – manwerthu, gwaith gofal, gwasanaethau cyswllt agos a lletygarwch a'r rhai sydd heb le i weithio gartref. Felly nid yw'r cyfle i weithio mewn amgylchedd sy'n 'fwy diogel' ac sy'n cael ei gefnogi gan arferion lechyd a Diogelwch da ar gael i bawb. Mae hyn yn debygol o effeithio ar fenywod i raddau helaethach o ystyried y tebygolrwydd bod mwy o fenywod mewn rolau rhan-amser neu ar gyflog isel na dynion. Nid yw gweithio gartref ychwaith yn 'dda' ym mhob ystyr ac mae'n llawer

mwy heriol i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r gwahaniaethau'n cynnwys: diffyg lle i weithio gartref naill ai oherwydd maint y tŷ neu orfod rhannu ag eraill; cost a dibynadwyedd band eang; biliau gwresogi a goleuo ychwanegol, ac effaith negyddol bod yn ynysig ar iechyd meddwl a llesiant, yn enwedig dros gyfnod y gaeaf. Mae'n bosibl fod arbedion o ran rhai costau teithio, ond mae hynny'n dibynnu ar amgylchiadau unigol.

14. Mae'r neges 'aros gartref' hefyd yn parhau yn y newid a wnaed i Lefel Rhybudd 4 ym mis Chwefror. Tynnodd adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig COVID-19 sylw at faterion yn ymwneud â gorlenwi yng nghartrefi pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hanner y boblogaeth honno yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent, o'i chymharu ag ychydig o dan draean o'r boblogaeth wyn. Mae pobl Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n rhentu yn fwy tebygol o fyw mewn eiddo rhent preifat nag eiddo cymdeithasol ar rent (o'u cymharu â'r cyfrannau tra thebyg o bobl wyn sy'n byw mewn eiddo rhent preifat ac eiddo cymdeithasol ar rent). Trwy Arolwg Cyflwr Tai Cymru (2017-18) rydym yn gwybod, yn gyffredinol, mai yn y sector rhentu preifat mae'r stoc hynaf o dai a'r gyfran uchaf o dai o ansawdd gwael (ee tamprwydd neu beryglon eraill). Mae pobl o nifer o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn na phobl Wyn Prydeinig. Dim ond 4.9% o bobl Wyn Prydeinig oedd yn byw mewn tai gorlawn (hynny yw, roedd ganddynt lai o ystafelloedd gwely nag yr oedd eu hangen arnynt i osgoi sefyllfa anfoddhaol o rannu ystafell), o'i gymharu â 28.7% o Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a 27% o bobl Fangladeshaid; tra bod 19.4% o bobl Dduon a 18.5% o bobl Arabaidd yn gwneud hynny. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â rhwystrau sy'n deillio o'r sectorau economaidd y mae pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o weithio ynddynt, nad yw gweithio gartref o reidrwydd yn opsiwn ymarferol i lawer o bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig oherwydd lefelau uwch o orlenwi gartref, o gymharu â phobl Wyn.
15. Mae cyfyngiadau teithio ar waith yn Lefel Rhybudd 4: y cyngor yw aros gartref oni bai ei fod yn deithio gydag esgus rhesymol a ganiateir. Fodd bynnag, ni cheir teithio i ardaloedd sydd â lefel uchel o'r feirws yn y DU ac oddi yno (Haen 3 yn Lloegr, Lefel 3 ac uwch yn yr Alban, Gogledd Iwerddon i gyd) heb esgus rhesymol. Mae ein canllawiau'n cynghori'n gryf yn erbyn pob taith nad yw'n hanfodol yn y DU. Er y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant i lawer (oni bai eu bod yn gweithio oriau hir iawn) drwy gael gwared ar amser teithio o'r wythnos waith, bydd cyfyngiadau ar deithio yn parhau i gael effeithiau negyddol ar gydraddoldeb. Mae'r rhain yn deillio o gyfyngu ar y lleoedd y gall pobl fynd iddynt i gael gwasanaethau a hamdden, ac mewn nifer o achosion bydd yn golygu cyfyngu ar gwrdd â theulu a ffrindiau os ydynt yn byw mewn rhannau eraill o'r DU neu dramor. Mae hynny gallu golygu bod pobl yn teitmlu'n fwy unig ac ynysig. Rhagwelir y gallai hyn gael effaith niweidiol ar bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd â theulu agos a theulu estynedig yn byw mewn rhannau eraill o'r DU a thramor.
16. Bydd cyfyngiadau lefel 4 rhybudd yn parhau i gael effaith sylweddol ar fusnesau a gwasanaethau, sy'n cael effaith anghymesur ar rai grwpiau: gweithwyr iau (tafarndai a bwytai), menywod (manwerthu nad yw'n hanfodol) a phobl Dduon,

Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (tafarndai a bwytai). O ran yr effaith economaidd-gymdeithasol, mae awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn adrodd am gynnydd yn y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd ac yn y gyfran sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn am y tro cyntaf. Mae 24% o famau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd bwydo eu plant. Mae tystiolaeth dda o ran gynharaf y pandemig bod y cyfrifoldebau gofalu ychwanegol sy'n codi o'r pandemig, gan gynnwys gofal plant, yn cael eu hysgwyddo mewn modd anghymesur gan fenywod. Bydd gofyn o hyd i blant hunanynysu pan fydd achosion mewn ysgolion ac, yn seiliedig ar y cyfyngiadau symud cyntaf, bydd y gwaith o ofalu am blant a'u helpu i ddysgu - os bydd dysgu o bell yn digwydd – yn cael ei ysgwyddo gan fenywod yn hytrach na gan ddynion. Bydd hyn yn effeithio ar allu rhai menywod i weithio, ac ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae pryder y bydd hyn hefyd yn cael effaith dymor hwy ar yrfaoedd menywod a'u gallu i gamu ymlaen yn eu swyddi. Bydd busnesau yng Nghymru yn gallu parhau i fanteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi, a fydd yn cynnig rhywfaint o gymorth ond drwy gydol y cyfnod hwn mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn cael eu diswyddo, yn methu â chael gwaith dan gontract, neu eu horiau'n cael eu cwtogi. Bydd hyn yn cynyddu anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn golygu bod mwy o bobl yn wynebu heriau sylweddol.

17. Ym mhob lefel Rhybudd, lle bo hynny'n bosibl, bydd lleoliadau gofal plant, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn agored i bob dysgwr ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb ar safle'r ysgol. Roedd ymddangosiad amrywiol yn newydd a chyfraddau heintio uchel yn golygu nad oedd hyn yn bosibl ac fe'n gorfodwyd 'w gwneud yn ofynnol i blant ddysgu o bell am gyfnod. Mae dysgu wyneb yn wyneb yn hanfodol er mwyn osgoi creu effeithiau andwyol pellach i blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, a rhai plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae tystiolaeth gref o amryw o niweidiau economaidd-gymdeithasol i blant a phobl ifanc o ganlyniad i gau safleoedd addysg dros y tymor byr a'r tymor hir. Ceir tystiolaeth hefyd fod y niwed yn effeithio'n anghymesur ar blant o ardaloedd difreintiedig, a hefyd ar blant o lawer o grwpiau lleiafrifol. Un o'r casgliadau yn adroddiad SAGE 'COVID-19: Benefits of remaining in education - evidence and considerations'¹ yw bod cau ysgolion yn peryglu deilliannau addysgol, yn enwedig i fyfyrwyr difreintiedig. O'r arolwg plant Coronafeirws a Fi a thystiolaeth arall mae'n fwy tebygol y bydd gan blant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (e.e. plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a rhai plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches a phlant o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr) lai o le a thawelwch gartref i weithio oherwydd gorlenwi. Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 14 Rhagfyr, gosododd Llywodraeth Cymru gysail a deddfu i sicrhau, pe bai ysgolion cynradd yn penderfynu cau (fel a ddigwyddodd), y byddent yn parhau i gynnig darpariaeth addysg i ddysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol - bydd yr opsiwn i ddod â'r gyfarwydddeb hon i rym eto yn y dyfodol yn cael ei chadw.

18. Mae niwed yn debygol o gynnwys cynnydd mewn 'profiadau niweidiol yn ystod plentyndod' y mae ymchwil yn dangos y gallant arwain at broblemau trauma ac

¹https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935192/spi-b-dfe-benefits-remaining-education-s0861-041120.pdf

ymlyniad, a allai fod yn ddifrifol dros y tymor hir gan arwain at ganlyniadau gwael a lefelau uwch o iechyd gwael drwy gydol oes yr unigolyn. Gwyddom hefyd fod dysgu o bell yn anodd i'n plant ieuengaf. Ar gyfer dysgwyr hŷn sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol, efallai na fydd dysgu ar-lein yn bosibl gan fod angen iddynt gael defnyddio cyfleusterau yn y coleg neu'r gweithle i ddysgu sgiliau ymarferol. Mae angen inni sicrhau bod dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau yn cael y dysgu a'r cymorth strwythuredig sydd eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer asesiadau, ac i symud yn llwyddiannus i'w cam dysgu neu gyflogaeth nesaf.

19. Bydd canolfannau cymunedol, cyfleusterau cyhoeddus, megis llyfrgelloedd a chyrtau chwaraeon a pharciau sglerfrio yn parhau i fod ar agor ym mhob cyfyngiad heblaw Lefel Rhybudd 4. Bydd hyn yn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc, ond yn benodol pobl ifanc 7-11 oed Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn llawer mwy tebygol o ddweud bod cau canolfannau cymunedol a'r ffaith nad oeddent yn gallu mynd allan wedi effeithio ar eu dysgu (arolwg Coronafeirws a Fi). Roedd plant a phobl ifanc Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws holl ystodau oedran yr arolwg hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo bod cau llyfrgelloedd wedi effeithio ar eu dysgu. O ganlyniad, o dan gyfyngiadau Lefel Rhybudd 4, bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn caniatáu gweithredu gwasanaeth clicio a chasglu. Bydd rhai gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn dal i gael eu cynnal o ganolfannau cymunedol yn Lefel Rhybudd 4, gan gynnwys darparu gofal plant.
20. Er y bydd y ffaith fod dysgwyr yn dychwelyd yn raddol i leoliadau dysgu wyneb yn wyneb yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau o ddysgwyr a allai gael eu heffeithio'n andwyol drwy gyfyngu ar weithrediadau ysgol, rydym yn cydnabod ei bod hefyd yn debygol y bydd angen mwy o staff i weithio ar safleoedd ysgolion. Mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o farwolaethau'n gysylltiedig â COVID-19, yn ôl gwahanol alwedigaethau, yn dangos bod cyfraddau marwolaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar gyfer gweithwyr athrawon a gweithwyr proffesiynol yn y maes addysg rhwng 20 a 64 oed yn sylweddol is yn ystadegol na chyfradd y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig d â COVID-19 ymhlith y rhai yn y boblogaeth ehangach o'r un oedran a'r un rhyw. Fodd bynnag, rydym wedi rhoi mesurau lliniaru ar waith i sicrhau bod ysgolion mor ddiogel â phosibl i ddysgwyr a staff. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau i'r canllawiau gweithredol a gyhoeddwyd i gefnogi'r dychweliad graddol hwn, i gynnwys mesurau ychwanegol ynghylch defnyddio gorchuddion wyneb gan staff ym mhob rhan o'r ysgol neu'r lleoliad lle na ellir cadw pellter cymdeithasol. Cyflwynir profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos er mwyn nodi oedolion asymptomatig yn gyflym. Mae canllawiau ar asesiadau risg hefyd wedi'u diweddaru i gydnabod pwysigrwydd adolygu asesiadau risg i gyd-fynd â'r amgylchiadau cyfredol. Mae adnodd asesu risg COVID-19 Cymru gyfan ar gyfer y gweithlu wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio yn y sector addysg. Bwriedir defnyddio hwn i asesu a yw staff mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol o COVID-19, ac mae'n ystyried ffactorau fel ethnigrwydd, oedran, rhyw a chyflyrau iechyd sy'n bodoli'n barod.
21. Mae'r cyfyngiadau parhaus ar letygarwch a'r sector adloniant (e.e. sinemâu, alïau bowlïo) sy'n gorfod cau o dan Lefel Rhybudd 4 yn debygol o gael effaith negyddol

ar fenywod, pobl ifanc a phobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector. Mae'n debyg y bydd y teulu ehangach, gan gynnwys plant, yn teimlo'r niwed economaidd hefyd. Yn fwy cyffredinol, mae tystiolaeth Cyngor Ar Bopeth a'r Resolution Foundation yn dangos nad yw'r effeithiau ar gydraddoldeb yn digwydd yn gyfartal a bod pobl anabl, gofalwyr, pobl sy'n agored i niwed yn glinigol a phobl ar incwm isel mewn mwy o berygl o golli eu swyddi.

22. Ystyrir bod galluogi addoldai i aros ar agor ym mhob lefel Rhybudd – sy'n golygu eu heithrio rhag y rheolau ar ymgynnull - yn hanfodol i liniaru'r effeithiau negyddol yn y maes hwn.
23. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a gyflwynir yn erbyn y mesurau cyfyngol ar y Lefel Rhybudd 4 ddiwygiedig i'w weld yn Atodiad A.

Ystyriaethau ychwanegol ac asesiadau effaith eraill

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

24. Mae'r erthyglau ECHR canlynol yn debygol o fod yn berthnasol o ganlyniad i osod cyfyngiadau a gofynion fel y nodir yn y gwahanol Lefelau Rhybudd: erthygl 2 (hawl i fywyd), 5 (hawl i ryddid); 8 (yr hawl i barch at gartref); Erthygl 9 (rhyddid crefyddol); 11 (hawl i ymgynnull); 14 (gwahardd rhag gwahaniaethu), A1P1 (mwynhau eiddo) A2P1 (hawl i addysg). Mae'r rhain i gyd yn hawliau amodol a gall ymyrryd â'r hawliau hyn fod yn gyfreithlon lle bo angen yr ymyrraeth honno wrth geisio nod cyfreithlon a bod yr ymyrraeth yn gymesur â'r nod hwnnw.
25. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hefyd ynâ cydbwysu ymyrraeth â'r hawliau uchod i'r hawl i fywyd (Erthygl 2 o'r ECHR) sy'n gosod rhwymedigaethau cadarnhaol ar y wladwriaeth i ddiogelu bywyd. Er y bydd gan y pecyn o fesurau yn Lefel Rhybudd 4 oblygiadau i lawer o erthyglau'r ECHR, ystyrir bod hyn yn gymesur er mwyn darparu ymateb iechyd cyhoeddus i bandemig y coronafeirws. Mae mesurau Lefel Rhybudd 4, sy'n gosod y cyfyngiadau mwyaf caeth ar symud ac ymgynnull ac yn ei gwneud yn ofynnol cau busnesau ac adeiladau, yn taro cydbwysedd rhwng diogelu iechyd y cyhoedd a'r niwed cymdeithasol, ariannol, economaidd a llesiant a achosir gan y cyfyngiadau. Ystyrir mai po hiraf y bydd y mesurau hyn ar waith, y mwyaf o niwed fyddai'n cael ei achosi i fywydau a bywoliaeth pobl. Gan fod Lefel Rhybudd 4 uwch yn cael ei hymestyn am dair wythnos arall, gan olygu cyfanswm o 11 wythnos yn olynol o leiaf, roedd Gweinidogion Cymru o'r farn bod lleddfau rhywfaint ar y cyfyngiadau mewn perthynas ag ymgynnull yn yr awyr agored yn briodol er mwyn lliniaru rhywfaint ar y niwed o ran llesiant. Bydd hyn yn golygu bod modd i hyd at bedwar o bobl o ddwy aelwyd gyfarfod yn yr awyr agored, ond nid mewn gardd breifat.
26. Dylid nodi hefyd bod llawer o'r cyfyngiadau, yn enwedig ar symud a chynulladau, yn destun esgusodion rhesymol – ar bob lefel Rhybudd – a fydd yn galluogi pobl i ymgynnull o dan do a theithio at ddibenion penodol. Yn ogystal, mae gofynion, er enghraifft i wisgo gorchuddion wyneb, yn destun eithriadau, y bwriedir iddynt liniaru rhai o'r effeithiau anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, mae'r gallu i gael gofal plant (pob lefel Rhybudd) – neu i rieni sengl ffurfio cartref estynedig (pob lefel Rhybudd) - yn ceisio lliniaru'r effaith

anghymesur ar fenywod yn sgil y gofyniad i aros gartref. Yn yr un modd, mae'r esemptiad mewn perthynas â darparu gofal (pob lefel Rhybudd) yn ceisio lliniaru'r niwed i iechyd meddwl ac iechyd corfforol y gallai grwpiau agored i niwed ei ddioddef o ganlyniad i'r gofyniad hwn.

Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR)

27. Mae goblygiadau'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol wedi cael eu hystyried hefyd. Mae asesiad o'r effaith wedi'i amlinellu isod:

<i>Hawliau Dynol</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i>
<i>Mae Erthygl 11 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn cydnabod hawl pawb i gael safon byw ddigonol ar ei gyfer ei hun a'i deulu, gan gynnwys cartref a digon o fwyd a dillad, a gwelliant parhaus yn ei amodau byw.</i>	Bydd ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer y blynyddoedd sylfaen a rhai dysgwyr galwedigaethol yn lleihau effaith y feirws ar yr agwedd hon ar fywydau'r bobl hyn, ond mae llawer o fesurau cyfyngol eraill yn dal ar waith. Ar gyfer pob dysgwr arall, bydd dysgu o bell yn parhau am dair wythnos arall, gan ymestyn y cyfnod cronol ar gyfer niwed.	Diogelu'r GIG ac achub bywydau yw prif amcan Llywodraeth Cymru. O ran mesurau cyfyngol, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu addysg – gan fod yn glir mai dyma dyma'r maes olaf i gael ei gyfyngu a'r cyntaf i gael ei lacio. Wrth fabwysiadu dull graddol o ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb mewn leoliadau addysg, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio gwarchod rhag ymchwydd mewn heintiadau yn sgil hynny.	Drwy ddarpariaeth dysgu o bell dros dro, sy'n cynnwys cymorth i deuluoedd difreintiedig i sicrhau y gallant gael mynediad at y dechnoleg a'r caledwedd i hwyluso dysgu fel hyn.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

28. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu Lefelau Rhybudd i Gymru. Bydd gan y pecyn o fesurau y cytunwyd arnynt ar bob lefel Rhybudd oblygiadau o ran yr Erthyglau canlynol:

- Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 6: Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw; dylai Llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu.

- Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w safbwyntiau gael eu cymryd i ystyriaeth.
- Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth cyn belled nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac i eraill.
- Erthygl 14: Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu beth maen nhw'n ei ddewis a hefyd i ymarfer eu crefydd.
- Erthygl 17: Mae gan blant yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol; dylai teledu, radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall, ac ni ddylent hyrwyddo deunyddiau a allai niweidio plant.
- Erthygl 23: Mae gan blant anabl hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac annibyniaeth, i'r graddau mwyaf posibl, yn ogystal â chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.
- Erthygl 26: Dylai'r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol i blant teuluoedd mewn angen.
- Erthygl 27 – Mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.
- Erthygl 28: Mae gan blant hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.
- Erthygl 29: Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn i'r eithaf. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliannau eu hunain ac eraill.
- Erthygl 31: Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau

29. Ym mis Ionawr 2021 gofynnodd Comisiynydd Plant Cymru i blant a phobl ifanc yng Nghymru rannu eu barn a'u profiadau o'r cyfyngiadau diweddaraf ar y Coronafeirws drwy'r arolwg 'Coronafeirws a Fi'. Cymerodd bron i 20,000 o blant rhwng 3 ac 18 oed ran yn yr arolwg. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 12 Chwefror a chrynhwir canfyddiadau allweddol yr arolwg hwn, fel y'u cyhoeddwyd ar wefan Comisiynydd Plant Cymru, yn y paragraffau canlynol.

30. Mynegwyd teimladau negyddol cryf gan lawer o blant a phobl ifanc; mynegwyd rhwystredigaeth ganddynt, ac weithiau dicter, am effaith y pandemig ar eu bywydau. Soniodd plant 3 – 7 oed am golli ffrindiau, aelodau o'r teulu a phrofiadau. O ganol eu harddegau ymlaen, roedd arwyddion o ing ychwanegol, a oedd o bosibl yn cael ei ddwysáu gan bryderon am arholiadau ac am eu dyfodol.

Dywed 30% o'r bobl ifanc 17 a 18 oed a gymerodd ran eu bod yn poeni 'y rhan fwyaf o'r amser'.

31. Mae cyfraddau unigrwydd yn uchel, a methu â gweld ffrindiau sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau plant, ac yna methu â gweld aelodau eraill o'r teulu ac effaith cau ysgolion a cholegau. Dywed 14% o blant 7-11 oed eu bod yn teimlo'n unig 'y rhan fwyaf o'r amser', ac mae'r teimladau o unigrwydd yn cynyddu gydag oedran, gan gyrraedd uchafbwynt o 40% o bobl ifanc 17 oed yn dweud eu bod yn teimlo'n unig 'y rhan fwyaf o'r amser'. Mae'n bosibl y bydd llacio'r rheolau ynghylch ymgynnull yn yr awyr agored yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant drwy leihau teimladau o unigrwydd a'u galluogi i weld ffrindiau o un aelwyd arall mewn lleoliad awyr agored.
32. Mae dros hanner y bobl ifanc 12-18 oed yn mwynhau dysgu ar eu cyflymder eu hunain o gartref, ond mae llawer yn poeni y byddant yn mynd ar ei hôl hi gyda'u dysgu – gwelir bod hyder a chymhelliant o ran addysg yn lleihau gydag oedran. Mae mwyafrif helaeth y bobl ifanc 15-18 oed yn pryderu am fynd ar ei hôl hi, mae eu cymwysterau a 69% yn adrodd am gymhelliant isel i wneud gwaith ysgol.
33. Mae plant sy'n aml yn wynebu mwy o rwystrau (anghydraddoldebau) rhag cael arfer eu hawliau, hyd yn oed pan nad oes pandemig byd-eang, hefyd wedi wynebu mwy o anawsterau ar gyfartaledd na'u cyfoedion. Er enghraifft, mae plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o boeni am y coronafeirws, yn fwy tebygol o deimlo'n drist, yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel. Mae plant a phobl ifanc o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel na'u cyfoedion. Dywedodd rhai plant nad oes ganddynt fynediad at argraffydd, y llyfrau sydd eu hangen arnynt, man tawel, bwrdd/desg neu gadair a/neu bapur neu ddeunydd ysgrifennu.
34. Er gwaethaf y pryderon y mae plant a phobl ifanc yn sôn amdanynt, mae llawer hefyd yn cyfeirio at brofiadau cadarnhaol - fel y gwnaethant yn yr arolwg cenedlaethol diwethaf ym mis Mai 2020 - gan gynnwys mwynhau treulio amser gartref a chael cymorth da gan ysgolion a gweithwyr ieuenctid.
35. Bydd ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen a rhai dysgwyr galwedigaethol yn helpu i leihau effeithiau andwyol fel y rhai a restrir uchod. Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn cael blaenoriaeth benodol oherwydd ein bod yn gwybod eu bod yn ei chael hi'n anodd dysgu o bell.
36. Mae Lefel Rhybudd 4 yn cyfyngu gwasanaethau i rieni i gymorth ar-lein ac yn rhithwir yn unig, gydag amser wyneb yn wyneb yn gyfyngedig i gymorth brys neu pan fo plentyn mewn perygl. Bydd gwasanaethau mamolaeth ac amenedigol yn parhau, gyda mynediad at ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cymorth ehangach.

Gallai caniatáu i bedwar o bobl o ddwy aelwyd gyfarfod y tu allan, gan gadw pellter cymdeithasol, fod o fudd i rieni, a'u plant o dan 11 oed sy'n mynd gyda nhw, o ran llesiant cymdeithasol, emosiynol, meddyliol a chorfforol.

37. Mae cyfleusterau hamdden o dan do ac yn yr awyr agored, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a ddefnyddir gan glybiau a sefydliadau sy'n trefnu gweithgareddau chwaraeon, i gyd yn aros ar gau dan Lefel Rhybudd 4. Mae hyn yn effeithio ar hyfywedd y rhan fwyaf – os nad yr holl – weithgareddau chwaraeon cymunedol wedi'u trefnu gan gynnwys, ymysg pethau eraill, yr hyn a fyddai fel arfer yn cael ei ddarparu i blant. Dylai meysydd chwarae a pharciau awyr agored aros yn agored ar bob lefel Rhybudd i liniaru effaith gwasanaethau o dan do cyfyngedig, ac i sicrhau bod plant yn cadw'r cyfle i chwarae. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant o gartrefi sydd heb le yn yr awyr agored a/neu ddiffyg lle o dan do.
38. Mae gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu, megis grwpiau rhieni a plant, yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad plentyn – yn gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol ac yn wybyddol. Gwyddom o adroddiad diweddar gan Ofsted fod plant yn dioddef cam yn ôl, er enghraifft yn dod i'r ysgol mewn cewynnau, llai o sgiliau lleferydd ac iaith ac ati. Er bod gan Llywodraeth Cymru rywfaint o fesurau lliniaru ar waith ym mlwyddyn aiannol 2020/21 drwy'r Gronfa Datblygu Plant, dyma fydd yn cael yr effaith fwyaf os bydd y mathau hyn o grwpiau'n gallu cyfarfod ym mhob lefel ond Lefel Rhybudd 4. Mae'n bwysig pwysleisio bod cyfyngiadau o dan Lefel Rhybudd 4 yn peri risg barhaus o gam yn ôl yn natblygiad plentyn, felly dylai unrhyw amser a dreulir yn Lefel Rhybudd 4 fod mor fyr â phosibl. Mae'n bosibl mai dim ond dwysáu'r effeithiau negyddol a wnaiff cyfyngiadau Rhybudd lefel 4 i rai blant, er bod yr amser a dreulir gartref wedi bod yn brofiad mwy cadarnhaol i rai.
39. Er mwyn unioni rhai o effeithiau'r cyfyngiadau symud cychwynnol, lansiwyd cynllun gwerth £3.5m i fynd i'r afael ag oedi datblygiadol ym mis Hydref yn dilyn pryderon ynghylch plant yn colli cerrig milltir ar gyfer datblygiad corfforol a datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd y cynllun hwn yn dechrau lliniaru peth o'r niwed a ddisgrifir.
40. O ran llesiant economaidd plant, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i deuluoedd sydd mewn tlodi, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, Prydau Ysgol am Ddim a banciau bwyd, gan sicrhau bod cymorth ar gael fel na ddylai unrhyw blentyn fynd yn llwglyd. Mae arian ychwanegol wedi'i ddarparu i gefnogi'r mesurau hyn gan helpu felly i liniaru yn erbyn teimladau o ansicrwydd ynghylch bwyd, a brofir yn arbennig gan blant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, yn Lefel Rhybudd 4, yn benodol, cydnabyddir nad yw hyn yn debygol o fod yn ddigon i unioni effaith colli enillion i weithwyr ar gontractau dim oriau, gweithwyr asiantaeth neu'r rhai na fyddant ond yn mynd â dwy ran o dair o'u cyflogau adref, os ydynt mewn sefyllfa lle gall eu cyflogwr gael mynediad at gronfa Cynllun Cymorth Swyddi'r DU.
41. I gynorthwyo â'r cyfathrebu â phlant a rhieni, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes i ddosbarthu gwybodaeth a chynghori i rieni, er enghraifft yr Ymgyrch Rhowch Amser Iddo; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd y gwaith hwn yn ceisio tawelu meddyliau plant, egluro beth sy'n digwydd a helpu rhieni i gefnogi eu plant i barhau i fwynhau rhai o'u hawliau hanfodol, e.e. yr hawl i

fwynhau ymlacio a chwarae. Byddwn hefyd yn siarad yn uniongyrchol â nifer o bobl ifanc drwy Plant yng Nghymru i sefydlu'r ffordd orau o gyfathrebu â'r rhai o oedran ysgol uwchradd. Byddwn yn ystyried a yw negeseuon cyffredinol yn berthnasol i'r grŵp oedran hwn, y sianeli a ddefnyddir i drosglwyddo negeseuon, a/neu a oes angen i ni ddatblygu cynhyrchion a negeseuon penodol ar gyfer ifanc. Mae ymgyrch Diogelu Cymru, fel rhan o'r ymgyrch cyn y Nadolig, wedi comisiynu hysbysebion ar sianeli cyfryngau cymdeithasol fel TikTok ac wedi datblygu hysbyseb ddigidol ar gyfer sianeli teledu a digidol, sy'n cynnwys negeseuon i deuluoedd a phlant.

Effeithiau ehangach ar yr economi, cymdeithas a llesiant

42. Er gwaethaf y gefnogaeth a gynigir i fusnesau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig COVID-19, mae'r effaith ar fywoliaeth pobl wedi bod yn sylweddol. Ymhlith y rhai a gafodd eu taro galetaf mae'r rhai ar gyflogau is, pobl iau, y rhai â lefelau sgiliau /cymwysterau isel, pobl ag iechyd gweael ac anabledau'r rhai o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
43. Yn fras, ystyrir bod yr effaith amcangyfrifedig ar werth ychwanegol gros (GVA) o ganlyniad i gyfyngiadau Lefel 4 yn £100m yr wythnos. Felly, byddai 14 wythnos o gyfyngiadau Lefel 4 yn gysylltiedig ag effaith o £1.4bn.
44. Bydd niwed economaidd tymor byr penodol yn dod i'r amlwg drwy fwy o ddiweithdra, a fydd yn cyfateb i'r cyfnod pan fydd llefydd ar gau. Maes o law, bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith niweidiol ar iechyd ac ar lesiant. Wrth i hyd y cyfyngiadau gynyddu, mae'r niwed hwn yn mynd yn fwy difrifol ac mae'n bwysig ystyried a yw lleihau niwed uniongyrchol o COVID-19 yn parhau i fod yn gymesur â'r niwed anuniongyrchol a achosir gan gyfyngiadau.
45. Y risg wrth i bobl fynd yn ddi-waith yw bod eu sgiliau'n tueddu i edwino, a gall eu cysylltiad â'r farchnad lafur leihau. Hefyd, o ystyried y cysylltiad pendant rhwng diweithdra a llesiant, gall eu hiechyd meddwl a chorfforol ddioddef. Mae'r effeithiau hyn yn cynyddu'r raddol wrth i hyd y cyfnod a dreulir yn ddi-waith fynd yn fwy. Mae'r holl effeithiau hyn yn lleihau rhagolygon cyflogaeth a chyflog yn y dyfodol.
46. O ystyried effeithiau 'Lefel Rhybudd 4 – risg uchel iawn', yn 2020 yng Nghymru roedd 3,465 o fusnesau mewn manwerthu nad yw'n hanfodol; 8,900 mewn lletygarwch; 1,905 mewn gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth; a 5,120 mewn categorïau eraill fel campfeydd, gofal personol a llyfrgelloedd². O dan hawliadau a wnaed tan 30 Mehefin pan gaewyd y rhan fwyaf o safleoedd lletygarwch, yn ôl data a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ar 15 Gorffennaf 2020, roedd 73% o swyddi cyflogedig cymwys yn y diwydiant yng Nghymru wedi cael eu cefnogi drwy'r Gynllun Cadw Swyddi'r Coronafeirws. Ar draws yr holl ddiwydiannau roedd hyn yn 29% o swyddi cyflogedig cymwys

² Yn seiliedig ar y rhestr Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a gasglwyd at ddibenion dadansoddi ac a nodir **yn Atodiad B**. Gall hyn fod ychydig yn wahanol i'r [canllawiau](#) a gyhoeddwyd ynglŷn â pha fusnesau sy'n gorfod cau.

(378,400). Ar draws y sectorau hyn, mae'r rhan fwyaf yn fusnesau bach a chanolog eu maint – a chrynodiad uchel yn y band micro. Efallai y bydd rhai busnesau llai yn ei chael hi'n arbennig o anodd goroesi.

47. Yn gyffredinol bydd pobl yn waeth eu byd pan fydd gofyn i fusnesau gau gan nad yw cynlluniau cymorth estynedig Llywodraeth y DU yn cynnwys incwm llawn blaenorol pobl. Disgwylir nawr y bydd lefelau diweithdra'n cynyddu ac mae arwyddion clir y bydd creithiau tymor hir. Mae data diweddaraf yr ONS ar y farchnad lafur yn dangos bod y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn 4.6% rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020, o'i gymharu â 3.2% rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Mae'r cynnydd hwn er gwaethaf parhad cynlluniau cymorth y Llywodraeth, sy'n rhoi pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus.
48. Mae cyfoeth o dystiolaeth arolwg yn tynnu sylw at y niwed cymdeithasol yn sgil y cyfyngiadau symud, gan gynnwys effeithiau negyddol sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant. Mae'r niwed hwn yn arbennig o ddifrifol i'r ifanc (canfu camau blaenorol yr arolwg fod cyfran uwch o bobl ifanc wedi ymdopi'n wael â chyfyngiadau na phobl hŷn), ynghyd â'r rhai sy'n llai abl i ddeall yr angen am newid mewn trefn arferol, fel plant ifanc neu bobl ag awtistiaeth. Canfu'r dangosyddion diweddaraf o arolwg Barn a Ffordd o Fyw'r ONS fod mesurau llesiant personol rhwng 10 a 14 Chwefror ar gyfer boddhad bywyd (6.4), teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil (7.0) a hapusrwydd (6.5) wedi aros ar rai o'r lefelau isaf a gofnodwyd ers mis Mawrth 2020; fodd bynnag, mae'r lefel pryder (4.1) wedi gwella ychydig yr wythnos hon o'i gymharu â'r wythnos diwethaf (4.2). Roedd y dangosyddion llesiant hyn eisoes yn sylweddol waeth o gymharu â'r rhai a gofnodwyd cyn y pandemig, yn enwedig i'r rhai a nododd deimladau o unigrwydd.

Effeithiau ar yr amgylchedd

49. O dan y lefel Rhybudd fwyaf llym, gallwn ddisgwyl profi rhai effeithiau amgylcheddol cadarnhaol, gyda chyfyngiadau a chanllawiau'n cael eu cyhoeddi i gyfyngu ar deithio rhyngwladol ac i reoli ffiniau'n fwy llym. Mae'n debyg y bydd effaith amgylcheddol gadarnhaol yn gyffredinol gan fod llai o bobl yn teithio'n bell i ymweld â ffrindiau a theulu, atyniadau a safleoedd lletygarwch. Fodd bynnag, mae'r rheini sy'n teithio'n debygol o ddefnyddio'u ceir eu hunain fwyfwy i wneud hynny pan fyddant yn cael gwneud hynny. Mae data arolwg IPSOS Mori ar gyfer mis Tachwedd yn dangos bod tua thri chwarter (75% yn ffigurau 20-23 Tachwedd) yn cytuno â'r datganiad 'Byddaf yn osgoi trafndiaeth gyhoeddus ac yn defnyddio fy nghar yn fwy nag yr oeddwn yn ei wneud o'r blaen'.
50. Bydd y gofyniad i weithio gartref, lle bo hynny'n bosibl, hefyd yn cyfrannu at effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Dangosodd astudiaeth³ gan dîm y Prosiect Carbon Byd-eang ym mis Rhagfyr fod allyriadau carbon yn y DU wedi gostwng 13% yn 2020.

³ <https://essd.copernicus.org/articles/12/3269/2020/>

Y Gymraeg

51. Ystyrir mai cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 sy'n cael yr effaith negyddol fwyaf ar y Gymraeg, ac ystyrir bod yr effaith yn cyfateb ar y cyfan i hyd y cyfyngiadau. Mae effeithiau'r cyfyngiadau yn debygol o amrywio'n sylweddol ar sail cefndir ieithyddol siaradwyr Cymraeg. I blant sy'n unig siaradwr Cymraeg yn eu cartref (sy'n wir am rai plant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg) gallai'r cyfleoedd i siarad Cymraeg gael eu lleihau'n ddifrifol gan gyfyngiadau ymgynnull o dan do ac yn yr awyr agored, yn enwedig o'u cyplysu â chyfyngiadau ehangach ar addysg a sectorau economaidd. Fodd bynnag, mae'n anodd deall union effaith hyn yn llawn, gan y bydd llawer o siaradwyr yn defnyddio adnoddau digidol fel modd o oresgyn rhwystrau ffisegol i gymdeithasu. Fodd bynnag, bydd yr ardal (gwahaniaeth mewn cysylltedd band eang trefol/gwledig) ac oedran (gyda charfannau hŷn o'r boblogaeth â lefelau is o lythrennedd digidol na'u cymheiriaid iau) hefyd yn effeithio ar y gallu i wneud hynny'n rhwydd.
52. Mae grwpiau cymunedol Cymraeg yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi pobl i siarad Cymraeg yn rheolaidd â'i gilydd. Datgelodd arolwg diweddar yn edrych [ar effaith pandemig coronafeirws ar grwpiau cymunedol](#) Cymraeg mai dim ond 20% o'r grwpiau hynny oedd wedi llwyddo i addasu eu gweithgareddau i weithredu mewn rhyw ffordd ers i'r cyfyngiadau symud cyntaf ddechrau ddiwedd mis Mawrth. Mae'n bosibl bod yr 80% arall wedi cadw mewn cysylltiad â'u grŵp, ond nid oeddent wedi parhau i weithredu. O'r rhai a oedd wedi gallu gweithredu mewn rhyw ffordd, yn gyffredinol, roeddent yn teimlo eu bod yn llai effeithiol, yn cyfarfod yn llai aml a bod llai o bobl yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau. Pan ofynnwyd iddynt am eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol, credai 62% o'r grwpiau y byddent yn parhau i fodoli fel grŵp ymhén blwyddyn, pe bai'r rheolau cadw pellter cymdeithasol yn dal yn berthnasol.

Effeithiau ar gefn gwlad

53. Bydd y cyfyngiadau ar letygarwch yn Lefel Rhybudd 4 ynghyd â chyfyngiadau teithio yn cael effaith andwyol ar y diwydiant twristiaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae tafarndai mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i ddibynnu'n helaeth ar fasnach gyda'r nos, ac felly bydd y cyfyngiadau lletygarwch yn cael effaith economaidd-gymdeithasol negyddol ar y busnesau hyn.
54. Yng Nghymru mae tua 20% o bobl yn byw mewn aneddiadau o dan 2,000 o bobl. Mae 20% arall yn byw mewn aneddiadau o rhwng 2,000 a 9,999 o bobl. Mae hyn ychydig yn llai na chyfran y bobl sy'n byw mewn aneddiadau o 100,000 o bobl o leiaf (Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd). Felly, mae'r aneddiadau llai yn gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Gall maint y setliad bach a'r pellteroedd teithio dan sylw fod â goblygiadau o ran darparu gwasanaethau (gwasanaethau a ganiateir) yn yr ardaloedd hyn.
55. Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i fod â chyfran uwch o bobl oedrannus na gweddill Cymru. Yn 2019 roedd 21% o boblogaeth Cymru dros 65 oed. Mae gan bob un o'r 9 awdurdod lleol sy'n wledig ar y cyfan (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy) gyfran uwch o bobl dros 65 oed.

Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 diwygiedig fis Chwefror

Lefel Rhybudd 4 (risg uchel iawn)			
Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	Cadarnhaol: O ystyried bod effeithiau'r coronafeirws ar iechyd yn fwy difrifol i bobl hŷn, bydd lleihau cyfraddau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol. Negyddol: Mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector tafarndai a bwytai a bydd y cyfyngiadau yn y tymor byr ac unrhyw ganlyniadau tymor canolig a hirdymor a gaiff hynny ar fusnesau yn y sector yn effeithio'n negyddol arnynt. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd. Mae pobl iau hefyd wedi cael niferoedd anghymesur o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd hyd yma. Negyddol: Mae'r gofyniad i aros gartref – hyd yn oed am gyfnod byr – yn debygol o effeithio ar iechyd meddwl pob grŵp oedran: pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o boeni am ddal y feirws, tra bod pobl 18-29 oed yn fwyaf tebygol o deimlo'n ynysig.	Adroddodd y Resolution Foundation fis Chwefror 2021 fod effeithiau COVID-19 ar gyflogaeth wedi cael eu teimlo fwyaf gan y rhai sy'n gweithio mewn sectorau sy'n destun mesurau cadw pellter cymdeithasol, a chan yr ifanc, y rhai ar gyflog isel, a'r rhai ar gontractau ansicr Hyd at 22 Medi, roedd 61% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd yng Nghymru wedi'u rhoi i bobl o dan 35 oed. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a thai bwyta yng Nghymru yn 16 i 24 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu y	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio "dull 4E" lle mae gorfodaeth yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb o ran oedran Dylai eithriadau ac esgusodion rhesymol i greu aelwydydd estynedig os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ac i gyfarfod o dan do i ddarparu gofal, liniaru yn erbyn effeithiau gwaethaf y mesurau. Gall gweithgarwch corfforol a bod yn yr awyr agored gael effaith sylweddol ar leihau unigrwydd, felly dylai'r esgus rhesymol i alluogi ymarfer corff helpu i

	Cadarnhaol: Bydd ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb o 22 Chwefror ar gyfer blynyddoedd sylfaen a dysgwyr galwedigaethol o fudd i'r grwpiau hyn. Cydnabyddir mai'r blynyddoedd sylfaen yw'r grŵp mwyaf heriol o ran elwa o ddysgu o bell. Yn ogystal, bydd plant sy'n dychwelyd yn gallu elwa yn sgil gweld eu ffrindiau.	mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). Mae ymatebion i'r arolwg yn amlygu mai pobl iau (18-29) sydd fwyaf tebygol o fod yn bryderus am eu hiechyd meddwl ac i deimlo'n ynysig. Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o boeni am eu hiechyd a'r risgiau o ddal COVID-19. Canfu arolwg ffordd o fyw yr ONS (20 Mai) fod cyfraddau unigrwydd ar eu huchaf ymhlith oedolion o oedran gweithio sy'n byw ar eu pennau eu hunain (e.e. soniodd 13% o'r rhai 16-64 oed a oedd yn byw ar eu pennau eu hunain am unigrwydd cronig o gymharu â 5% ar aelwydydd â dau oedolyn o oedran gweithio). Nid oedd pobl hŷn yn fwy tebygol o nodi eu bod yn unig ac roedd y gyfran uchaf ymysg oedolion ifanc. Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac yn poeni mwy am gael y feirws a mynd yn ddifrifol wael (arolwg llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru)	liniaru effaith y mesurau i ryw raddau.
<i>Anabledd (meddyliwch am</i>	Cadarnhaol: Mae COVID-19 yn cael effaith anghymesur sylweddol ar iechyd rhai	Canfu Adroddiad Cyngor ar Bopeth: An Unequal Crisis fod cyfran uwch o bobl	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU

<i>wahanol fathau o bobl anabl)</i>	pobl anabl a rhai pobl â chyflyrau iechyd cronig. Bydd mesurau cryfach i leihau trosglwyddo yn cael rhai effeithiau cadarnhaol ar bobl anabl. Bydd caniatáu i wasanaethau cyswllt agos aros ar agor hefyd yn helpu i leihau effeithiau andwyol ar bobl anabl. Cadarnhaol: O ganlyniad i adolygiad mis Chwefror, byddwn yn diweddarau ein canllawiau i'w gwneud yn glir y bydd pobl anabl yn gallu mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Negyddol: Yng nghyfnod cynnar y pandemig, roedd pobl anabl yn fwy tebygol o fod ar ffyrlo ac mae'n bosibl y caiff y patrwm hwn ei ailadrodd. I bobl anabl, mae'n bosibl y bydd yr teimlad o fod yn ynysig a'r effeithiau negyddol ar eu hiechyd oherwydd problemau iechyd meddwl yn cynyddu. Negyddol: Yng nghyfnod cynnar y pandemig, gwelodd rhai pobl anabl ostyngiad yn eu pecyn gofal gan awdurdodau lleol neu newidiadau eraill yn y cymorth sydd ar gael. Roedd hyn yn effeithio ar ansawdd bywyd a llesiant pobl. I rai pobl anabl, efallai na fydd eu cartref yn lle	anabl (1 o bob 4) yn wynebu colli eu swyddi na'r boblogaeth gyffredinol (1 o bob 6). Mae dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod gan bobl anabl gynrychiolaeth uwch mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru, gyda 19% o'r rhai mewn cyflogaeth yn cael eu dosbarthu'n anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r cyfan mewn cyflogaeth). Mae adborth gan ofalwyr yn nodi bod diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer rhai grwpiau, fel y rheini sy'n gofalu am rywun ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu ddementia, sy'n llai tebygol o allu deall a delio â'r tarfu ar eu trefn arferol. Dangosodd yr arolwg Coronafeirws a Fi fod plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o sôn am effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a bod cau gwasanaethau yn cael effaith fawr ar sut roedden nhw'n teimlo. Gall cyfyngiadau symud effeithio'n anghymesur ar bobl anabl. Efallai y bydd lle diogel a phriodol yn brin gartref neu yn eu hardal leol ac efallai y bydd angen teithio i leoliad pellach i	i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Dylai eithriadau ac esgusodion rhesymol dros greu aelwydydd estynedig os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ac i gyfarfod o dan do i ddarparu gofal a chymorth, liniaru effeithiau gwaethaf y mesurau.
--	--	---	--

	diogel. Gallai'r gofyniad i aros gartref eu gwneud yn agored i niwed arall a gallai fod yn esgus rhesymol i eraill gadw gwasanaethau draw. Gall gofynion aros gartref a chyfyngiadau eraill effeithio'n fwy difrifol ar rai pobl anabl nag eraill. Gallai hyn fod oherwydd bod cadw at drefn arferol yn helpu i reoli eu llesiant neu oherwydd anhawster i gyfleu neu ddeall yr angen am gyfyngiadau penodol. Roedd cau 'gwasanaethau cyswllt personol' hefyd yn effeithio ar bobl anabl – yn enwedig gwasanaethau therapiwtig, yn cael effaith negyddol ar lesiant corfforol a meddyliol.	ffwrdd. Bydd unrhyw gyfyngiad ar amllder ymweliadau allanol yn effeithio'n fwy sylweddol ar rai pobl anabl. Yn ei adroddiad ar anghydraddoldebau ac effaith COVID-19^[1], nododd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fod cadw pellter cymdeithasol a'r newidiadau i'n hamgylchedd adeiledig yn effeithio'n arbennig ar bobl anabl.	
<i>Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhywedd a phobl Drawsryweddol)</i>	Negyddol: Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn gynharach yn y pandemig am effaith y gofyniad i aros gartref ar rai pobl yr oedd eu teuluoedd yn negyddol neu'n elyniaethus o ran hunaniaeth rhywedd yr unigolyn. Gallai gofyniad i aros adref ailgyflwyno'r materion hyn. Cadarnhaol: Gall llacio'r rheolau er mwyn i aelwydydd estynedig gael cwrdd yn yr awyr agored gael effaith gadarnhaol drwy alluogi unigolion i		

	gael mynediad at rwydweithiau cymorth.		
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Negyddol: Mae amrywiaeth o faterion wedi'u nodi ar gyfer beichiogrwydd a mamolaeth o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud. Mae'r rhain wedi amrywio o ddylanwadu ar benderfyniadau menywod p'un ai i gael genedigaethau naturiol os nad yw eu partner yn bresennol, i anawsterau gyda bwydo ar y fron. Gellid teimlo'r effeithiau negyddol hyn eto yn ystod cyfnodau parhaus o'r cyfyngiadau llymch ar Lefel Rhybudd 4.	Nododd yr arolwg babanod yn ystod cyfnod o gyfyngiadau fod ychydig dros chwarter (28%) o'r rhai sy'n bwydo ar y fron yn teimlo nad ydynt wedi cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn bwydo ar y fron (55%), ond nid oedd dros hanner y rhai a oedd yn defnyddio fformiwla wedi bwriadu gwneud hynny (53%). Nododd yr adroddiad bod bron i hanner (47%) o rieni yn dweud bod eu baban wedi mynd yn fwy dibynnol arnynt. Roedd chwarter (26%) yn dweud bod eu babi'n crio mwy nag arfer. Roedd nifer y rhai a nododd gynnydd mewn babanod yn crio, strancio a bod yn fwy dibynnol arnynt ddwywaith mor uchel ymhlith y rhai ar yr incwm isaf o gymharu â'r rhai ar yr uchaf. Nododd yr adroddiad hwn hefyd fod 6 o bob 10 rhiant yn rhannu pryderon sylweddol am eu hiechyd meddwl.	Mesurau lliniaru: Bydd gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg) yn parhau ar agor yn ystod cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 a byddant yn helpu i ddarparu cymorth i'r grŵp hwn.
<i>Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a</i>	Cadarnhaol: Dangoswyd bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar bobl Dduon, Asiaidd a	Ceir ystod o dystiolaeth wahanol ar yr effaith anghymesur ar y gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i

<i>Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</i>	lleiafrifoedd ethnig, felly bydd mesurau i reoli'r feirws o fudd arbennig i'r grŵp hwn. Cadarnhaol: Bydd ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer y Blynyddoedd Sylfaen a rhai dysgwyr galwedigaethol yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau teuluoedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd â phlant ifanc. Negyddol: Amlygodd adroddiad Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig faterion gorlenwi mewn cartrefi i bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Bydd gofyniad i aros adref yn effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n byw mewn amodau gorllawn. Negyddol: Mae pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o weithio o fewn y sector tafarndai a bwytai yng Nghymru na phobl wyn. Negyddol: Bydd cau rhai sectorau yn cael effaith anghymesur ar bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Gall fod effaith andwyol arbennig hefyd ar fusnesau Pobl Dduon, Asiaidd a	lleiafrifoedd ethnig (e.e. ONS, Grŵp cynghori Llywodraeth Cymru ar Bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, Coronafeirws a Fi). Dywedodd plant a phobl ifanc o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig fod y cyfyngiadau'n effeithio ar eu gallu i gynnal corff a meddwl iach, a bod diffyg lle neu fyw mewn cartref gorllawn yn gwneud hyn yn anoddach. Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yw 12% o'r rhai sy'n gweithio mewn tafarndai a bwytai. Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai ar gyflog isel. Ym mis Chwefror 2021 adroddodd y Resolution Foundation fod gweithwyr a oedd mewn cyflogaeth ar ddechrau'r argyfwng o gefndir Du neu leiafrifoedd ethnig 5 pwynt canran yn fwy tebygol na gweithwyr Gwyn o fod naill ai wedi rhoi'r gorau i weithio neu wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, fis Ionawr 2021 Adroddwyd bod 24% o famau Du, Asiaidd a	liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Mae pecyn Llywodraeth Cymru wedi'i dargedu'n benodol at y sector lletygarwch a thwristiaeth. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio "dull 4E" lle mae gorfodi yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau o ran cydraddoldeb hiliol Dylai'r eithriadau a'r esgusodion rhesymol dros greu aelwydydd estynedig os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ac i gyfarfod o dan do i ddarparu gofal, liniaru effeithiau gwaethaf y mesurau tymor byr.
--	--	--	--

	lleiafrifoedd ethnig sy'n gwerthu bwydydd diwylliannol arbenigol, fel bwyd ethnig, sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cynnal cwsmeriaid oherwydd prinder cynhyrchion bwyd. Negyddol: Bydd cau ysgolion hefyd yn cael effaith andwyol ar bobl hyn y genhedlaeth Windrush ac o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi sôn am deimlo'n ynysig a gorbryder, iselder ac anawsterau iechyd meddwl yn gysylltiedig â bod o dan gyfyngiadau ac wedi'u hynysu mewn cartrefi i ffwrdd oddi wrth aelodau eu cymuned neu eu teulu. Negyddol: Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth bod niferoedd anghymesur o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi i bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Gall creu troseddau newydd a allai arwain at gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig gael effaith andwyol ar gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Gall y cyfyngiadau ar deithio gael effaith andwyol ar bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd â theulu mewn mannau eraill yn y DU neu dramor.	lleiafrifoedd ethnig wedi dweud eu bod yn cael trafferth bwydo eu plant. Cafodd 10% o'r hysbysiadau cosb benodedig yng Nghymru hyd at 22 Medi eu rhoi bobl a nododd eu bod o gefndir Asiaidd neu Tsieineaidd, sy'n cynrychioli tua 2% o'r boblogaeth. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig. Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2019 yn amcangyfrif bod 12% o'r rhai sydd mewn cyflogaeth mewn tafarndai a bwytaf yng Nghymru o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (tra bod y grŵp hwn ond yn cynrychioli 5% o'r holl bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru).	
--	---	--	--

<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Cadarnhaol: Bydd addoldai yn aros ar agor ac yn cael gweithredu mewn ffordd ddiogel o ran COVID. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau ffydd.		
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth glir bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar ieuchyd dynion. Felly bydd mesurau i ddod â'r feirws yn ôl dan reolaeth a lleihau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol ar ddynion. Negyddol: Bydd y cyfyngiadau ar y sector lletygarwch yn effeithio ar fenywod gan eu bod yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu effeithio os bydd yn rhaid i'w plentyn hunanynysu gan eu bod yn tueddu i ysgwyddo mwy o'r gwaith o ofalu am blant. Negyddol: Mae tystiolaeth dda o gyfnod cynnar y pandemig bod y cyfrifoldebau gofalu ychwanegol sy'n codi o'r pandemig, gan gynnwys gofal plant, yn cael ei ysgwyddo'n anghymesur gan fenywod. Bydd hyn yn effeithio ar allu rhai menywod i weithio ac ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae pryder y bydd hyn hefyd yn cael effaith tymor hwy ar yrfaedd menywod a'u gallu i gamu ymlaen yn eu gyrfa.	Mae 76% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd hyd at 22 Medi wedi rhoi i ddynion. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran rhyw a hysbysiadau cosb benodedig, o ystyried y data cyfyngedig. Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2019 yn amcangyfrif bod 50% o'r rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru mewn tafarndai a bwytai yn fenywod, tra bod menywod yn cynrychioli 47% o'r holl bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu y gallai menywod elwa ar ailgydio mewn rhyngweithio cymdeithasol 'normal', fel pryd o fwyd gyda ffrindiau neu deulu/teulu estynedig, a allai roi hwb i lesiant seicolegol. Menywod yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n darparu gofal, bod hynny â thâl neu'n ddi-dâl, a menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr ieuchyd, ac maent yn fwy	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio "dull 4E" lle mae gorfodi yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb rhywiol Mae'r gallu i gael gofal plant – neu i rieni sengl greu aelwyd estynedig - yn ceisio lliniaru effaith anghymesur y gofyniad i aros gartref ar fenywod. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall gwasanaethau allweddol barhau i weithredu, gan gynnwys wyneb yn wyneb yn ystod cyfyngiadau Lefel 4 (er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a Dechrau'n Deg).

	Cadarnhaol: Bydd ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer y Blynnyddoedd Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod sy'n aml yn ysgwyddo'r baich mwyaf o ran gofal plant. Negyddol: Mae tystiolaeth o alw cynyddol am gymorth gyda thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dilyn y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Bydd unrhyw fesurau sy'n dweud wrth bobl am aros adref a chyfyngu ar y mannau lle gallant fynd i wneud datgeliad yn cynyddu'r risgiau hynny ac yn cyfyngu ar y cyfle i gael mynediad at gymorth neu gefnogaeth. Negyddol: Derbyniodd dynion nifer anghymesur o hysbysiadau cosb benodedig.	tebygol na dynion o roi gofal di-dâl gartref (Grŵp Cyllideb Menywod, COVID-19: Materion Rhywedd a Chydraddoldeb) Gofalwyr sy'n gweithio, a fydd yn gorfod cydbwysu agor gwasanaethau lleol a gofalu am berson sy'n agored i niwed. (Carers UK)	
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)</i>	Negyddol: Mae rhywfaint o dystiolaeth o gyfnod cynnar y pandemig am effaith y gofyniad i aros gartref ar rai pobl yr oedd eu teuluoedd yn negyddol neu'n elyniaethus o ran cyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn. Gallai gofyniad i aros gartref ailgyflwyno'r materion hyn. Cadarnhaol: Bydd y gallu i gwrdd â hyd at bedwar o bobl (dwy aelwyd) yn yr awyr agored, ar gyfer ymarfer corff, o fudd i unigolion a fydd yn gallu		

	cael mynediad at eu rhwydweithiau cymorth ar ôl teimlo'n ynysig yn ystod y cyfyngiadau symud os ydynt yn byw gydag eraill nad ydynt yn cydnabod/yn cefnogi eu cyfeiriadedd rhywiol.		
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Negyddol: Mae mesurau Lefel Rhybudd 4 yn cyfyngu ar nifer y gwesteion a all fynychu seremoni priodas neu bartneriaeth sifil (gan gynnwys priodasau dyneiddiol).	Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol na'r cyffredin o deimlo'n unig (unigrwydd cronig ac unigrwydd oherwydd cyfyngiadau symud) (arolwg barn a ffordd o fyw ONS, 20 Mai).	
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Cadarnhaol: Bydd cadw ysgolion, a cholegau ar agor (hyd yn oed os oes rhaid i hyn fod drwy ddysgu o bell gartref) yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, nid yw'r posibilrwydd y bydd plant yn gweithio gartref yn cael ei ystyried yn rhywbeth mor gadarnhaol, ac yn sicr nid yn y tymor canolig na'r tymor hir. Cadarnhaol: Bydd ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb o 22 Chwefror ar gyfer blynyddoedd sylfaen a dysgwyr galwedigaethol o fudd i'r grwpiau hyn. Cydnabyddir mai'r blynyddoedd sylfaen yw'r grŵp mwyaf heriol o ran elwa o ddysgu o bell. Yn ogystal, bydd plant sy'n dychwelyd yn gallu elwa yn sgil gweld eu ffrindiau.	Mae'r dystiolaeth o'r cyfyngiadau symud cyntaf yn dangos bod yr effaith ar blant sy'n agored i niwed a phlant difreintiedig wedi bod yn arbennig o ddifrifol. Yn yr holiadur Coronafeirws a Fi, nodwyd mai'r prif beth a oedd yn cael effaith ar deimladau plant a phobl ifanc oedd methu â gallu gweld ffrindiau. Yn yr arolwg Coronafeirws a Fi, plant o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod angen help arnynt i sicrhau bod gan eu teulu ddigon o fwyd. Maent yn fwy tebygol o roi gwybod am arwyddion o ansicrwydd bwyd. Adroddwyd am hyn hefyd gan randdeiliaid sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig	Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu teuluoedd sydd mewn tlodi drwy, er enghraifft, y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Datblygu Plant ar gyfer plant sydd mewn perygl o oedi datblygiadol. Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 14 Rhagfyr, gosododd Llywodraeth Cymru gysail trwy ddeddfu i sicrhau, pe bai ysgolion cynradd yn penderfynu cau, y byddent yn parhau i gynnig darpariaeth addysg i ddysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol – cedwir yr opsiwn i ddod â'r gyfarwydddeb hon i rym eto, yn y dyfodol. Mae canllawiau'n cael eu datblygu i gyfleu hyblygrwydd y cyfyngiadau i addasu i anghenion grwpiau penodol, h.y. yr esgusodion rhesymol y gellir eu defnyddio gan

	Negyddol: Mewn sefyllfa lle mae angen dysgu o bell neu ddysgu cyfunol, gallai plant o deuluoedd incwm is fod o dan anfantais oherwydd bod cost TG (o bosibl) yn eu rhoi o dan anfantais o ran hwyluso addysg eu plant. Negyddol: Mae peryg y bydd cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 yn niweidio iechyd meddwl plant, yn enwedig o ran cynyddu teimladau o unigrwydd neu o fod yn ynysig yn ystod y cyfyngiadau mwyaf llym. Negyddol: Bydd effeithiau economaidd negyddol a brofir gan y teulu yn effeithio ar blant. Negyddol: Mae cau lleoliadau adloniant a chwaraeon (sinemâu, arcedau bowlio, mannau chwarae o dan do a'r holl weithgareddau a drefnir yn yr awyr agored) yn lleihau'r opsiynau hamdden sydd ar gael i blant a phobl ifanc.		gynnwys y gallu i fynd allan. Bydd cyfathrebu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn cael ei wella drwy hysbysebion a dylanwadwyr a fydd yn targedu sianeli cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc (er enghraifft, TikTok) ac fe'u defnyddir i drosglwyddo negeseuon 'Diogelu Cymru'. Mae'r cyfyngiadau yn Lefel Rhybudd 4 sy'n ymwneud â gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu, fel arfer yn cynnwys plant a'u rhieni/gwarcheidwaid yn teithio ac o bosibl yn cymysgu ag aelwydydd eraill. Y risg gynyddol o drosglwyddo yw'r hyn y mae cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 yn ceisio'i osgoi.
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Negyddol: Mae natur cyflogaeth yn y sectorau yr effeithir arnynt fwyaf yn golygu y bydd effeithiau'n tueddu i waethygu anghydraddoldebau – mae'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf yn tueddu i fod ar gyflog isel, mewn cyflogaeth ansicr, ac yn ifanc.	Mae data dros dro ar gyfer 2020 o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2-ddigid yng Nghymru. Ar gyfer Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr er ein bod yn cydnabod y bydd yn rhaid i lawer ymdopi ar lai o arian nag arfer gan fod y ffyrlo yn darparu 80% o gyflog unigolyn. Mae hefyd yn

		Diod (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.20 – sef £4.22 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.42. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £140.40 yw'r canolrif – tua £299.60 yn is na chanolrif Cymru. Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 80% o weithwyr Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai ar gyflog isel. <i>Arolwg Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru:</i> mae'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf diffreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o deimlo'n bryderus ac ynysig yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ogystal â bod yn fwy pryderus am eu hiechyd meddwl.	arbennig o anodd i rai categorïau o weithwyr fel y rhai sydd ar gontractau dim oriau, gweithwyr asiantaeth a chynlluniau lleoliadau gwaith eraill.
--	--	---	---

Atodiad B: Y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiad lefel 4

Isod ceir diffiniadau SIC o Fanwerthu nad yw'n Hanfodol, Lletygarwch a Thwristiaeth gysylltiedig arall. Sylwer, er bod Lletygarwch yn cael ei ddiffinio fel Llety a Bwyd, mae llawer o hyn mewn gwirionedd yn rhan o Dwristiaeth.

Mae'r rhestr at ddibenion dadansoddi yn unig a gall fod ychydig yn wahanol i'r [canllawiau](#) swyddogol.

Manwerthu nad yw'n hanfodol

- 9200 : Gweithgareddau hapchwarae a betio
- 4719 : Manwerthu arall mewn siopau nad ydynt yn arbenigol
- 4741 : Manwerthu cyfrifiaduron, unedau perifferol a meddalwedd mewn siopau arbenigol
- 4742 : Manwerthu offer telathrebu mewn siopau arbenigol
- 4743 : Manwerthu offer sain a fideo mewn siopau arbenigol
- 4751 : Manwerthu tecstilau mewn siopau arbenigol
- 4752 : Manwerthu nwyddau haearn, paent a gwydr mewn siopau arbenigol
- 4753 : Manwerthu carpedi, rygiau, gorchuddion waliau a lloriau mewn siopau arbenigol
- 4754 : Manwerthu offer cartref trydanol mewn siopau arbenigol
- 4759 : Manwerthu dodrefn, offer goleuo ac eitemau eraill i'r cartref mewn siopau arbenigol
- 4761 : Manwerthu llyfrau mewn siopau arbenigol
- 4762 : Manwerthu papurau newydd a deunydd ysgrifennu mewn siopau arbenigol
- 4763 : Manwerthu recordiadau cerddoriaeth a fideos mewn siopau arbenigol
- 4765 : Manwerthu gemau a theganau mewn siopau arbenigol
- 4771 : Manwerthu dillad mewn siopau arbenigol
- 4772 : Manwerthu esgidiau a nwyddau lledr mewn siopau arbenigol
- 4774 : Manwerthu nwyddau meddygol ac orthopedig mewn siopau arbenigol
- 4775 : Manwerthu eitemau cosmetig ac ymolchi mewn siopau arbenigol
- 4777 : Manwerthu watshys a gemwaith mewn siopau arbenigol
- 4778 : Manwerthu nwyddau newydd mewn siopau arbenigol
- 4779 : Manwerthu nwyddau ail-law mewn siopau
- 4781 : Manwerthu drwy stondinau a marchnadoedd bwyd, diodydd a chynhyrchion tybaco
- 4782 : Manwerthu drwy stondinau a marchnadoedd tecstilau, dillad ac esgidiau
- 4789 : Manwerthu drwy stondinau a marchnadoedd nwyddau eraill

Lletygarwch

- 55: Llety
- 56: Gweithgareddau gwasanaeth bwyd a diod

Twristiaeth arall

- 7911 : Gweithgareddau asiantaethau teithio
- 7912 : Gweithgareddau gweithredwyr teithiau
- 7990 : Gwasanaeth archebu arall a gweithgareddau cysylltiedig
- 9001 : Y celfyddydau perfformio
- 9002 : Gweithgareddau cymorth ym maes y celfyddydau perfformio
- 9003 : Creu artistig
- 9004 : Gweithredu cyfleusterau celfyddydol
- 9102 : Gweithgareddau amgueddfa
- 9103 : Gweithredu safleoedd ac adeiladau hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr
- 9104 : Gerddi botanegol a sŵolegol a gweithgareddau gwarchodfeydd natur
- 9311 : Gweithredu cyfleusterau chwaraeon
- 9319 : Gweithgareddau chwaraeon eraill
- 9321 : Gweithgareddau parciau difyrrwch a pharciau thema
- 9329 : Gweithgareddau difyrrwch a hamdden eraill

Y diwydiannau sy'n weddill

5914 : Gweithgareddau taflunio ffilmiau
7420 : Gweithgareddau ffotograffig
8551 : Addysg chwaraeon a hamdden
9001 : Y celfyddydau perfformio
9002 : Gweithgareddau cymorth ym maes y celfyddydau perfformio
9101 : Gweithgareddau llyfrgell ac archif
9312 : Gweithgareddau clybiau chwaraeon
9313 : Cyfleusterau ffitrwydd
9491 : Gweithgareddau sefydliadau crefyddol
9511 : Atgyweirio cyfrifiaduron ac offer perifferol
9512 : Atgyweirio offer cyfathrebu
9521 : Atgyweirio dyfeisiau electronig defnyddwyr
9522 : Atgyweirio dyfeisiau cartref a chyfarpar y cartref a'r ardd
9523 : Atgyweirio esgidiau a nwyddau lledr
9524 : Atgyweirio celfi a deunyddiau dodrefnu'r cartref
9525 : Atgyweirio watshys, clociau a gemwaith
9529 : Atgyweirio nwyddau personol a nwyddau cartref eraill
9601 : Golchi a sychlanhau cynhyrchion tecstilau a ffwr
9602 : Trin gwallt a thriniaeth harddwch arall
9604 : Gweithgareddau llesiant corfforol
9609 : Gweithgareddau gwasanaethau personol eraill nad ydynt wedi'u dosbarthu yn unman arall